




Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Ffurflen aelodaeth



Ymunwch â ni er cynnal hunaneiriolaeth yng Nghymru...

Amdanom ni

All Mae Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan am sicrhau bod pobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru yn gallu cael cymorth hunaneiriolaeth er mynnu mwy o reolaeth a dewis yn eu bywydau.

Rydym am sicrhau bod pobl gydag anableddau dysgu'n deall eu hawliau, yn benodol eu hawliau dynol.

Rydym am helpu pobl gydag anableddau dysgu i fwynhau bywydau mwy annibynnol a chael mwy o ddewis er gwella ansawdd eu bywydau.

Rydym am hyrwyddo gwerthoedd hunaneiriolaeth fel gwasanaeth ataliol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau sy'n bygwth byw'n annibynnol.

Beth yw hunaneiriolaeth?

Lleisio barn eich hun, gan gynyddu hyder a sgiliau er cymryd penderfyniadau dros eich hun.

Aelodaeth

Mae 4 math o aelodaeth



Aelodaeth lawn -

Pobl gydag anableddau dysgu yn gallu gwneud cais i fod yn aelodau llawn.

Buddion aelodau llawn...



Pleidlais yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan



Lleisio eich barn wrth ein hysbysu o faterion pwysig i chi wrth i ni ymateb i ymgynghoria dau polisi gan y Llywodraeth.



Ein hysbysu o faterion o bwys i chi wrth gysylltu â chynrychiolwyr cyngor cenedlaethol Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.



Cyfle i fod yn rhan o'n projectau.



Cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau.



Disgownt ar brisiau ein cynhadledd flynyddol.



Copi o'n cylchgrawn Talk Back, pedair gwaith y flwyddyn.



Cymorth a chyngor ar gyfer eich grŵp.



I Adnoddau gwybodaeth ar gyfer eich grŵp.



Bod yn rhan o'n hymgyrch er hysbysu pobl pa mor bwysig yw hunaneiriolaeth i chi.








Cerdyn pleidleisio aelod llawn.

Aelodaeth gyswilt -

Pobl sy'n cefnogi pobl gydag anableddau dysgu.






Buddion aelodau gyswilt..

-  Cyfle i fynychu digwyddiadau gydag aelodau llawn.
-  Cyfleoedd hyfforddi.
-  Cymorth, cyngor ac adnoddau gwybodaeth ar gyfer eich grŵp.
-  Cyfle i gysylltu â phobl eraill sy'n cefnogi pobl gydag anableddau dysgu.
-  Copi o'n cylchgrawn Talk Back, pedair gwaith y flwyddyn.

Aelodaeth grŵp -

Grwpiau hunaneiriolaeth

Buddion aelodaeth grŵp...

-  Cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau.
-  Cymorth, cyngor ac adnoddau gwybodaeth ar gyfer eich grŵp.
-  Cymorth un-i-un gan ein gweithwyr datblygu.
-  Disgownt ar brisiau'r gynhadledd flynyddol a'r cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer eich aelodau.
-  Nid yw aelodaeth grŵp yn cynnwys hawliau pleidleisio.

Tanysgrifiwr -

Grwpiau nad ydynt yn hunaneiriolaeth, sefydliadau, cyrff statudol a gweithwyr proffesiynol sydd am dderbyn gwybodaeth am waith Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi canolbwyntio sylw ar hunaneiriolaeth, gyda chynnydd mewn diddordeb gweithwyr proffesiynol a chyrrff statudol yn ein gwaith.

Yn ein barn ni, mae hunaneiriolaeth yn gallu helpu unigolion i fynnu opsiynau ym meysydd byw'n annibynnol a chydraddoldeb.

O ganlyniad, mae datblygu a chynnal hunaneiriolaeth fel gwasanaeth ataliol yn gallu cynnig llawer wrth arbed costau gwasanaethau cymorth.

Rydym yn deall bod cyrff yn awyddus i gysylltu â ni fel llais unedig hunaneiriolaeth a dyna pam ein bod wedi cynnwys categori i danysgrifwyr

Bydd y categori'n galluogi cyrff a gweithwyr proffesiynol i gysylltu â'n haelodau a chefnogi datblygiad hunaneiriolaeth yng Nghymru.

Buddion i danysgrifwyr..



A 20% disgownt ar brisiau cynrychiolwyr ac arddangoswyr yn ein cynhadledd flynyddol a digwyddiadau eraill.



Copi o'n cylchgrawn Talk Back, pedair gwaith y flwyddyn.



Prisiau rhad er cynnwys erthyglau a chynnwys taflenni yn ein cylchlythyron i aelodau.



Cysylltiad â mudiad hunaneiriolaeth Cymru